Atodiad F – Adroddiad Blynyddol

At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol | Gwnaeth Tîm Diogelwch y Ffordd Cyngor Sir Ceredigion gyflwyno hyfforddiant lefel 1 a 2 y Safonau Beicio Cenedlaethol i 529 o ddisgyblion cynradd.<br><br>Hefyd cyflwynwyd hyfforddiant lefel 3 y Safonau Beicio Cenedlaethol i 20 o bobl (yn oedolion a phlant).<br><br>Gweithiodd swyddog Siwrneiau Actif Sustrans yn uniongyrchol gyda phump o ysgolion Ceredigion (nifer lai gan fod swyddog newydd yn y swydd) yn enwedig Llwyn yr Eos ym Mhenparcau ble mae'r potensial i newid ymddygiad yn fawr yn sgil y seilwaith teithio llesol da a gwell. Ar y cyd â Summit Cycles, bu'r swyddog Siwrneiau Actif Sustrans yn rhoi hyfforddiant ar gynnal a chadw beics i athrawon mewn pedair ysgol yng nghlwstwr Aberystwyth.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Plascrug wedi derbyn Gwobr Aur Teithio Llesol i Ysgolion – yr ysgol gyntaf o orllewin Cymru i gyd (ardaloedd Dyfed-Powys a Gwynedd) i gyflawni hyn.<br><br>Ar y cyd â Cheredigion Actif, bu'r swyddog Siwrneiau Actif Sustrans yn cyflwyno sesiynau sgwteri i holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 yng nghlwstwr ysgolion Aberystwyth yn ystod Gŵyl Ceredigion Actif ym mis Mehefin.<br><br>Bu'r swyddog Siwrneiau Actif Sustrans yn gwneud Cynlluniau Teithio Llesol gydag ysgolion yng nghlwstwr Aberystwyth:<br>• Ysgol Llwyn yr Eos<br>• Ysgol Plascrug<br>• Ysgol Penrhyncoch<br>• Ysgol Penllwyn |

| | |
|---|---|
| | Cynigiwyd y cynllun 'Beicio i'r Gwaith' i weithwyr Cyngor Sir Ceredigion a bu dwy ffenest ymgeisio yn ystod y flwyddyn.<br><br>Roedd swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion wedi bod ynghlwm wrth gynllunio ar gyfer gweithredu'r terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig/dan olau stryd yn y Sir ym Medi 2023.<br><br>Hyrwyddo 'Cynllun Teithio Llesol Waunfawr i IBERS' ar ôl cwblhau gwaith adeiladu Cam 1 i gysylltu Aberystwyth yn uniongyrchol ag Ysgol Gynradd Comins Coch. Bu disgyblion yr Ysgol Gynradd ynghlwm wrth hyrwyddo'r cynllun a gwnaed hyn yn y wasg leol ac ar gyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Gwnaed nifer o ddiweddariadau i Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion ar blatfform MapDataCymru, gan gydymffurfio â dyddiad cau Llywodraeth Cymru o fis Medi 2023. |
| Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | Mae Swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion wedi bod wrthi'n datblygu gwelliannau posib i gynlluniau ym maes teithio llesol yn ystod blwyddyn ariannol 23-24. Un o'r prif brosiectau datblygu a symudwyd yn ei flaen oedd 'Cynllun Teithio Llesol Waunfawr i IBERS' (cyfeirnod llwybr at y dyfodol: CER-FR-AB-631) lle'r oedd gofyn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol. Prynwyd tir ynghyd â chael caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo Suds er mwyn cefnogi'r cais am grant i Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o adeiladu Cam 1 ym mlwyddyn ariannol 23-24 (dyfarniad grant a dderbyniwyd ym Mai 2023). Mae'r gwaith o ddatblygu camau dilynol y cynllun mawr hwn yn mynd rhagddo.<br><br>Ysgol Ardal Gymunedol Dyffryn Aeron, Felinfach - Cydweithiodd Swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion gyda Gwasanaethau Dysgu'r Cyngor oddi ar y cam cyn-ymgeisio, i sicrhau bod cyfleusterau a seilwaith teithio llesol wedi'u cynnwys yn nyluniad a chais cynllunio'r ysgol newydd h.y. lloches parcio sgwteri/ beiciau, llwybr cyswllt newydd i dai cyfagos a mesurau tawelu traffig/ cyfleusterau croesi'r ffordd ar safle'r ysgol.<br><br>Y Gronfa Ffyniant Bro (Diwylliant, Treftadaeth a Lleihau Carbon) – Ar ôl i Lywodraeth y DU ddyfarnu'r grant hwn o £4.8m mae swyddogion o bob rhan o'r Cyngor wedi bod ynghlwm â datblygu a chyflawni darpariaeth sy'n |

| | |
|---|---|
| | cydymffurfio â theithio llesol ar hyd Promenâd Aberystwyth tuag at yr harbwr, ac ar draws Afon Rheidol i gysylltu â Llwybr Beicio Cenedlaethol 81 yn Heol Minafon. Roedd y gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 23/24 yn cynnwys datblygu'r dyluniad. Disgwylir ei adeiladu ar y tir yn ystod blwyddyn ariannol 24-25 (ac eithrio'r bont). Dyddiad cwblhau'r grant yw mis Mawrth 2025.<br><br>Gwneir gwaith dylunio a chais cynllunio i ddarparu cyswllt sy'n cydymffurfio â theithio llesol rhwng cyffordd Llwybr Ystwyth / Llwybr Rheidol wrth Bont yr Odyn yn Aberystwyth i Goedlan y Parc, drwy faes parcio Maes yr Afon. |
| Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | **<u>Cronfa Teithio Llesol</u>**<br><br>**Grant Dyraniad Craidd**<br>(Mae'n cynnwys costau adeiladu mân waith. Mae hefyd yn cynnwys costau datblygu cynlluniau Llwybrau at y Dyfodol h.y. cynlluniau sydd heb eu hadeiladu eto).<br>£473,924.76<br><br>**Dolen Teithio Llesol Waunfawr i IBERS – Adeiladu Cam 1 y Cynllun**<br>£1,608,716.79<br><br>**<u>Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u>**<br>Parhau i ddatblygu'r cynllun ar gyfer cyfleoedd teithio llesol mwy diogel ym mhentref arfordirol Llanrhystud.<br>£50,000.00 |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol gan drydydd partïon. | Ddim yn berthnasol |
| Hyd llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded | <br><br>Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| - Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | Ddim yn berthnasol<br>1,200 metr |
| Hyd y llwybrau wedi eu gwella:<br><br>- Walking<br>- Cycling<br>- Defnydd a Rennir | <br><br><br>192 metr<br>150 metr<br>Ddim yn berthnasol |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | • Gwella troedffordd Coedlan y Parc yn Aberystwyth gyda wyneb tarmac newydd a sianeli rhychiog a chwteri newydd i wella'r problemau gyda phyllau a welwyd ynghynt ar y droedffordd brysur hon wrth ganol y dref.<br>• Un ynys groesi newydd ar gyfer cerddwyr a beicwyr wedi ei gosod ar gefnffordd yr A487 yn Nhrefechan i wella'r cyswllt â Llwybr Ystwyth drwy Gerddi Rheidol.<br>• Dwy groesfan gyda chyrbau isel a phalmant botymog wedi eu gosod ar Rodfa'r Felin yn Aberteifi i wella'r cyswllt â'r Ganolfan Iechyd newydd.<br>• Un groesfan gyda chyrbau isel a phalmant botymog wedi ei gosod ar Heol Gwbert yn Aberteifi.<br>• Dwy fainc o blastig wedi'i ailgylchu wedi eu gosod ar y llwybr a rennir sy'n cysylltu â Chomins Coch.<br>• Dwy fainc bicnic wedi eu gosod yn Ardal Chwarae Gymunedol Comins Coch ynghyd â gosod offer chwarae newydd i wella'r ardal gymunedol hon fel rhan o gam 1 y cynllun adeiladu.<br>• Gosod twmpath cyflymder 'sinwsoidaidd' yng Nghomins Coch i wella diogelwch ar y ffordd ac i annog teithio llesol fel rhan o gam 1 y cynllun adeiladu.<br>• Cafodd nifer o fesurau ecolegol, gan gynnwys blychau newydd i adar ac ystlumod a dwy loches gaeaf, eu hymgorffori yng ngham 1 y cynllun adeiladu. Ymhlith y mesurau ecolegol pellach yr oedd plannu coed o rywogaethau brodorol i wella'r amgylchedd lleol ac atyniad y llwybr. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Un teclyn cyfrif cerddwyr a beicwyr wedi ei osod ar Lôn Waungau yn Waunfawr, Aberystwyth fel rhan o'r rhaglen o fonitro teithio llesol. |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

Llofnod y Prif Weithredwr:

Enw'r Prif Weithredwr: Mr Eifion Evans

Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru: 04.10.24

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council